



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Canolfan Datblygu ac Arloesi
Gofal Sylfaenol a Chymunedol
Datblygu Gofal Sylfaenol yng Nghymru

Primary and Community Care
Development and Innovation Hub
Developing Primary Care in Wales

GWEITHIO MEWN CLYSTYRAU YNG NGHYMRU

Gweithio yng Nghymru: Y Cyd-destun o ran Polisiâu a Strategaethau

*Rhan o gyfres o 3 llawlyfr ar gyfer Arweinwyr
Clystyrau newydd a staff eraill sy'n gweithio mewn
neu gyda chlystyrau*

A: Y cyd-destun o ran polisïau a strategaethau yng Nghymru	3
---	----------

B: Llywodraethu'r system iechyd a gofal

▪ Gweithio gyda Llywodraeth y DU	6
▪ Cynulliad Cenedlaethol Cymru	7
▪ Llywodraeth Cymru	7
▪ Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	8
▪ Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	8
▪ GIG Cymru (Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG)	9
▪ Awdurdodau Lleol	10
▪ Cyrff arolygu a rheoleiddio	10

C: Darparwyr iechyd a gofal


▪ Darparwyr iechyd a gofal yng Nghymru	12
▪ Contractwyr annibynnol gofal sylfaenol	12
▪ Gwasanaethau y tu allan i oriau	13
▪ Ysbytai	14
▪ Ymddiriedolaethau GIG Cymru	14
▪ Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	15
▪ Awdurdodau Lleol	15
▪ Y Trydydd Sector	15
▪ Galw Iechyd Cymru	16
▪ Gwasanaethau gwybodaeth am iechyd a llesiant ar-lein	17
▪ Cyngorau Iechyd Cymuned	18

Deunydd darllen pellach	19
--------------------------------	-----------

A: Y cyd-destun o ran polisiai a strategaethau yng Nghymru

Y cyd-destun o ran polisiau a strategaethau yng Nghymru


Mae'r ddwy dudalen ganlynol yn rhoi crynodeb byr o'r polisiau a'r strategaethau allweddol, a gyflwynir yn nhrefn dyddiadau, sydd wedi llywio datblygiadau ym maes gofal sylfaenol yn y blynyddoedd diweddar.



Datblygwyd [Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol](#) 2018 yn dilyn cyhoeddi *Cymru Iachach*. Mae'n cyflwyno'r [rhaglen](#) ar gyfer gofal sylfaenol a'r ffrydiau gwaith allweddol sydd eu hangen i ddatblygu'r gwaith hwn. Mae'r rhaglen yn disgrifio parhad gwaith blaenorol, ac yn cydnabod yr angen am fwy o gyflymder a graddfa a manylion y gwaith newydd sydd ei angen i weithredu [Model Gofal Sylfaenol i Gymru](#) yn llawn.



[Cymru Iachach](#) a gyhoeddwyd mewn ymateb i'r [Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#). Mae'n cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, drwy fodel sy'n canolbwyntio ar iechyd, llesiant ac atal salwch. Mae'r cynllun yn seiliedig ar y nod pedwarplyg, gwella iechyd a llesiant y boblogaeth; gwella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; cynyddu'r gwerth a gyflawnir gan iechyd a gofal cymdeithasol; a gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwd a chynaliadwy.



Mae [Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol](#) yn nodi sut y bydd yr ymrwymadau yn [Symud Cymru Ymlaen](#) yn cael eu cyflawni, drwy uno ymdrechion y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru.




Roedd yr [Ymchwiliad i Ofal Sylfaenol: Clystyrau](#) (2017) yn ymchwilio ac yn adrodd ar y model gweithio mewn clystyrau o ran darparu gwasanaethau gwell i gleifion. Clywodd yr ymchwiliad dystiolaeth gan ystod eang o sefydliadau gofal iechyd, grwpiau proffesiynol a staff clinigol unigol. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad fod angen gwneud gwaith pellach er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau ar gyfer newid systematig, sy'n cyflawni angen lleol. Gwnaed cyfres o 18 o argymhellion.

A: Y cyd-destun o ran polisiâi a strategaethau yng Nghymru




Mae [*Symud Cymru Ymlaen*](#) 2017 yn disgrifio rhaglen 5 mlynedd ar gyfer llywodraethu, sy'n amlinellu'r ymrwymïadau i greu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.



Daeth [*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\)*](#) i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'n cynnwys 11 o adrannau ac mae'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyfreithiau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru, sy'n eu gwneud yn atebol i hyrwyddo llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth, neu ofalwyr sydd angen cymorth yn eu gwaith.



Mae [*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015*](#) yn ddeddfwriaeth sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu cyswllt allweddol i ddeddfwriaethau eraill yng Nghymru, gan gynnwys *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru)*, y *Ddeddf Cydraddoldeb*, *Deddf Cynllunio (Cymru)*, *Deddf Teithio Llesol (Cymru)*, *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* a *Deddf Tai (Cymru)*.



Mae [*A Planned Primary Care Workforce for Wales*](#) (2015) yn disgrifio'r camau gweithredu sydd eu hangen i ddatblygu'r gweithlu gofal sylfaenol yng Nghymru, er mwyn datblygu'r cynllun ar gyfer Gofal Sylfaenol.



Amlinellodd [*Ein Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol yng Nghymru*](#) (2014-2018) fodel cymdeithasol o iechyd, sy'n hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Ei nod oedd dod â sefydliadau, gwasanaethau a phobl berthnasol at ei gilydd i sicrhau bod achosion sylfaenol iechyd gwael yn cael sylw. Nodwyd pum maes blaenoriaeth er mwyn helpu sefydliadau i gynllunio eu dull gweithredu ar ofal sylfaenol: cynllunio gofal yn lleol, gwella mynediad ac ansawdd, mynediad cyfartal, gweithlu lleol medrus ac arweinyddiaeth gadarn.

A: Cyd-destun polisi a strategol yng Nghymru




Wedi'i lansio yn 2014, mae [Gofal Iechyd Darbodus](#) wedi'i ddiffinio fel gofal iechyd sydd wedi'i lunio, ei reoli a'i gyflawni mewn ffordd ofalus a doeth, wedi'i nodweddu gan ragfwiad, gwyliadwriaeth a chyllidebu gofalus, sy'n cyflawni buddiannau gwirioneddol a chanlyniadau ansawdd i glaf. Mae Egwyddorion Darbodus yn cynnwys iechyd a llesiant drwy gyd-gynhyrchu; gofalu am y rhai â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf; gwneud dim ond yr hyn sydd angen ei wneud a pheidio ag achosi niwed; lleihau amrywiadau amhriodol gan ddefnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gweithio gyda Llywodraeth y DU

Er gwaethaf y pwerau a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth y DU yn cadw dylanwad dros faterion Cymreig a gall Senedd y DU barhau i ddeddfu ym mhob maes sy'n gysylltiedig â Chymru. Drwy gytundeb, nid yw'n deddfu ar faterion datganoledig heb sicrhau cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddechrau. O ran y system iechyd, ymhlith yr enghreifftiau o feysydd nad ydynt wedi'u datganoli mae; cysylltiadau gyda'r Undeb Ewropeaidd, rheoleiddio meddygon neu ddeintyddion ac iechyd, diogelwch a meddyginiaethau.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfraith y DU a system iechyd y DU, cliciwch [yma](#).

Ffigur sy'n dangos sut y mae gofal iechyd yng Nghymru wedi'i strwythuro



Mae gwybodaeth am strwythur gofal iechyd yng Nghymru ar gael yn:

- [GIG Cymru: Strwythur](#)
- [BMA Cymru Wales: Sut mae gofal iechyd yng Nghymru wedi'i strwythuro](#)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad (AC) a 40 o Aelodau Seneddol (AS), yw'r corff etholedig sy'n cynrychioli buddiannau Cymru.

Mae'r Cynulliad yn datblygu polisiau Llywodraeth Cymru ac yn craffu ar ei gwaith, yn cytuno ar drethi yng Nghymru a gall basio cyfreithiau (a elwir yn Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru) ar faterion datganoledig. O ran y system iechyd, ac eithrio'r meysydd dros y ddalen sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cyfraith y DU, gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru ar gyfer pob mater sy'n gysylltiedig ag iechyd a gwasanaethau iechyd.

I gael rhagor o wybodaeth am Gynulliad Cenedlaethol Cymru, cliciwch [yma](#).

Llywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru. Mae'n cynnwys y Prif Weinidog, Ysgrifenyddion y Cabinet, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, sy'n cael eu cefnogi gan weision sifil sy'n gweithio ar draws y meysydd datganoledig, gan gynnwys iechyd. Mae'n pennu'r agenda cenedlaethol ar gyfer Cymru ac mae'n cynnwys amrediad o bwerau, gan gynnwys dosbarthu cyllideb Cymru.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwasanaethau iechyd ac mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Bwrdd Cyngori Cenedlaethol yn darparu cyngor i'r Gweinidog ar bennu blaenoriaethau'r GIG. Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r adran yn nodi disgwyliadau'r Gweinidog ar gyfer y GIG drwy fframweithiau ac amserlenni. Cyfarwyddwr Cyffredinol yr adran yw Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth am Llywodraeth Cymru, cliciwch [yma](#).

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Ym mis Ebrill 2016, o ganlyniad i [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) cafodd saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol statudol eu sefydlu. Mae pob un o'r Byrddau hyn yn adlewyrchu ffiniau daearyddol y bwrdd iechyd ac yn darparu arweinyddiaeth, gwaith cynllunio a chyflawni gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mae'n rhaid i'r aelodaeth gynnwys cynrychiolwyr etholedig o'r awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol, dau sefydliad y trydydd sector, cynrychiolydd pobl ag anghenion gofal a chymorth a chynrychiolwyr gofalwyr gydag aelodau cyfetholedig ychwanegol os yn briodol. Nodir y disgwyliad o ymgysylltiad rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chlystyrau yn [Cymru Iachach](#).

Mae gwybodaeth am Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol unigol ar gael yn:

- [Partneriaeth Integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd a Bro Morgannwg](#)
- [Cwm Taf Morgannwg](#) (Rhondda Cynon Taf a Merthyr)
- [Gwent](#)
- [Rhaglen Welliant Gydweithredol Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru](#)
- [Powys](#)
- [Gorllewin Morgannwg](#) (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)
- [Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru](#) (Sir Benfro, Caerfyrddin a Cheredigion)

I gael rhagor o wybodaeth...

- [Gwybodaeth Allweddol ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer clystyrau](#)
- [Map](#) o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran ffiniau byrddau iechyd ac awdurdodau lleol
- [Cylchlythyr Iechyd Cymru \(2016\) 028](#)

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae gan bob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Diben y Byrddau hyn yw asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal. O ran y system iechyd, mae pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn datblygu cynllun llesiant lleol. Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno'r amcanion, sy'n cael eu cyflawni drwy gydweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfraniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus at y nodau llesiant a gyflwynir yn Ndeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Aelodau statudol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol,

B: Llywodraethu'r system iechyd a gofal

yr awdurdod tân ac achub a Chyfoeth Naturiol Cymru. Estynnir gwahoddiad i'r canlynol gyfranogi hefyd: Gweinidogion Cymru, Prif Gwnstablaid, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rhai gwasanaethau prawf ac o leiaf un corff sy'n cynrychioli sefydliadau gwirfoddol perthnasol. I gael rhagor o wybodaeth am Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol cliciwch [yma](#).

GIG Cymru

Mae GIG Cymru yn darparu gwasanaethau drwy saith bwrdd iechyd a phedair Ymddiriedolaeth GIG.

Byrddau Iechyd

Wedi'u sefydlu ym mis Hydref 2009, mae gan y saith bwrdd iechyd statudol yng Nghymru gyfrifoldeb statudol dros ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn eu hardal. Maent yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a darparu gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys gofal sylfaenol sy'n cynnwys Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a gwasanaethau sy'n cael eu contractio drwy fferyllfeydd, deintyddion, optometryddion a gwasanaethau cymunedol.

Mae'r swyddogaethau arwain a llywodraethu ym mhob bwrdd iechyd yn cael eu cyflawni gan Gadeirydd, Prif Weithredwr a'u cefnogi gan Fwrdd Gweithredol, sy'n cynnwys unigolion o gefndiroedd a meysydd arbenigedd amrywiol. Mae'r Bwrdd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb corfforaethol dros bob penderfyniad ac mae ganddo rôl allweddol yn y gwaith o fonitro perfformiad y sefydliad. Mae Tîm

Mae gwybodaeth ar gael am bob bwrdd iechyd yn:

- [Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan](#)
- [Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr](#)
- [Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro](#)
- [Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg](#)
- [Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda](#)
- [Bwrdd Iechyd Addysgu Powys](#)
- [Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe](#)

Uwch-reolwyr yn cefnogi'r Bwrdd.

Mae gwybodaeth bellach am rolau allweddol yn eich bwrdd iechyd wedi'i chynnwys yn yr adran **Pwy yw pwy y Llawlyfr adnoddau i'ch helpu i ddatblygu eich clwstwr.**

Ymddiriedolaethau'r GIG

Mae pedair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru ar hyn o bryd, sy'n cwmpasu Cymru gyfan:

- [Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru](#)
- [Ymddiriedolaeth GIG Felindre](#)
- [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)
- [Addysg a Gwella Iechyd Cymru \(HEIW\)](#)

Mae swyddogaeth(au) pob Ymddiriedolaeth wedi'i/wedi'u nodi yn yr adran **Darparwyr iechyd a gofal**.

Awdurdodau Lleol

Yn darparu mwy na 700 o wasanaethau ar hyd a lled Cymru, mae awdurdodau lleol (cynghorau) yn darparu'r arweinyddiaeth leol ac ystod o wasanaethau i'w cymunedau. Mae rhai ohonynt yn statudol neu'n rheoleiddiol sy'n golygu bod yn rhaid iddynt ddarparu, er enghraifft, gofal cymdeithasol, archwiliad iechyd yr amgylchedd, casglu sbwriel a chynllunio. Darperir gwasanaethau eraill yn ôl disgrisiwn, a gall cynghorau ddewis eu darparu ai peidio, gan gynnwys hyrwyddo twristiaeth, hamdden a chanolfannau celfyddydol. Mae llawer o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol yn gallu effeithio ar neu gefnogi iechyd a phenderfynyddion ehangach iechyd, gan gynnwys addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol.

Rhagor o wybodaeth:

- Awdurdodau Lleol a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu [yma](#).
- Awdurdodau Lleol Unigol cliciwch [yma](#)

Cyrff arolygu a rheoleiddio

Mae gofal iechyd yn cael ei reoli a'i reoleiddio yn wahanol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Yng Nghymru, mae gan amrywiol reoleiddwyr bwerau i sicrhau gwelliannau a/neu gyfiawnder. Mae'n bosibl bod diogelwch cleifion/defnyddwyr a phwerau i sicrhau cyfiawnder wedi'u cynnwys yng nghylch gwaith rhai rheoleiddwyr. Pan nad oes gan reoleiddwyr y pwerau hyn, gallai'r [Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch \(HSE\)](#) ymyrryd, ymchwilio neu gymryd camau.

B: Llywodraethu'r system iechyd a gofal

Yng Nghymru mae dau brif reoleiddiwr ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol:



[Arolygiaeth Gofal Cymru \(CIW\)](#)



[Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru \(HIW\)](#)

Mae meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol, gwaed a chynnyrch gwaed yn cael eu rheoleiddio gan [Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd \(MHRA\)](#) ar draws y DU.



Yn ogystal â'r tri chorff rheoleiddiol hyn, mae yna nifer o gyrff rheoleiddio proffesiynol sy'n ceisio sicrhau bod safonau priodol yn cael eu cynnal gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rolau a'r dolenni i reoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol, cyrff proffesiynol ac eraill ar gael [yma](#).

Darparwyr iechyd a gofal yng Nghymru

Ar draws Cymru gyfan, mae gofal i gefnogi iechyd a llesiant yn cael ei ddarparu gan amrywiol ddarparwyr. Mae'r prif ddarparwyr gofal yn dueddol o fod y tu mewn i deulu'r GIG neu wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae gan y trydydd sector (elusennau, sefydliadau gwirfoddol ac asiantaethau cymunedol) rôl hollbwysig o ran cefnogi iechyd a llesiant ein poblogaeth ac mae'r rôl hon yn ehangu'n gyflym iawn gyda galw cynyddol ar yr holl ddarparwyr gofal. Mae'r adran hon yn trafod rhai o brif swyddogaethau darparwyr iechyd a gofal yng Nghymru.

Contractwyr annibynnol gofal sylfaenol

Mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn cael eu darparu gan ystod eang o staff gwahanol. Mae rhai grwpiau staff yn gweithio fel contractwyr annibynnol, yn hytrach na chael eu cyflogi yn uniongyrchol gan fyrdau iechyd, ac yn bennaf meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr cymunedol ac optometryddion.

	Practis Cyffredinol Mae yna 419 o Bractisau Cyffredinol yng Nghymru sy'n darparu amrediad o wasanaethau'r GIG yn unol â'r contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) , a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2004.
	Deintyddion Mae gwasanaethau'r GIG yn cael eu darparu gan 441 o Bractisau Deintyddol yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu wedi'u hamlinellu gan reoliadau deintyddol yng Nghymru. Mae rhaglen genedlaethol Cynllun Gwên sy'n gweithio gyda Phractisau Deintyddol y GIG yng Nghymru i gynyddu nifer y plant ifanc sy'n mynd i weld y deintydd.
	Fferyllwyr cymunedol Mae 716 o fferyllfeydd cymunedol wedi'u lleoli ar draws Cymru, sy'n darparu ystod o wasanaethau'r GIG, yn unol â'r Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol , a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2005. Yng Nghymru, mae pob fferyllfa gymunedol gymwys yn cynnig Gwasanaeth Anhwyllderau Fferylliaeth Dewis Fferyllfa , y gall unrhyw glaf sy'n byw yng Nghymru neu sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru gael mynediad atynt.
	Optometryddion Yn gweithio yn y gymuned, mae 352 o optometryddion, a elwir hefyd yn optegwyr offthalmig, yn darparu profion llygaid y GIG yn unol â chytundeb y Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol. Yn ogystal, mae'r mwyafrif o optometryddion hefyd yn cynnig Gwasanaeth Gofal Llygaid Cymru sy'n cynnwys Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru a chynllun Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru.

data yn gywir Chwefror 2019

Mae crynodeb o'r cytundebau darparwyr annibynnol yng Nghymru ar gael [yma](#)

Gwasanaethau y tu allan i orau



Mae Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau yn darparu gofal iechyd ar gyfer problemau meddygol brys y tu allan i oriau arferol meddygfeydd, sydd fel arfer o 8.00am i 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus).

Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru a gallai gynnwys meddygon teulu a/neu dimau o weithwyr proffesiynol gofal iechyd. Gall Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau gael eu lleoli mewn canolfannau gofal sylfaenol, adrannau damweiniau ac achosion brys, neu Unedau Mân Anafiadau. Gall y gwasanaethau gynnwys gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn gwneud ymweliadau cartref neu wasanaethau ambiwlans yn symud cleifion i leoedd lle gall meddyg neu nyrs eu gweld, er mwyn lleihau'r angen am ymweliadau cartref.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein: <https://urgentprimarycare.heiw.wales/cy/hafan/>

111 Cymru

111 yw'r ffordd newydd o gysylltu â'r GIG i bobl sy'n byw yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r gwasanaeth ar gael hefyd i gleifion yn ardal Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Nid yw pobl sy'n byw y tu hwnt i'r ardaloedd hyn neu gleifion sydd wedi cofrestru gyda phractis meddygon teulu mewn sir arall, yn gallu defnyddio 111 ar hyn o bryd.

Yn gyfuniad o Galw Iechyd Cymru a gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu, mae'r gwasanaeth am ddim o ffonau llinell daear a ffonau symudol ac mae ar gael 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos, ar gyfer gwybodaeth a chynghor iechyd ac i gael mynediad at ofal sylfaenol brys.

Rhagor o wybodaeth:

- Mae Cwestiynau Cyffredin am 111 ar gael [yma](#).
- Manylion cyswllt y [Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau](#) ar gyfer pob ardal bwrdd iechyd

Ysbytai

Bydd y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn gallu cael mynediad at ysbyty sy'n darparu gwasanaethau amrywiol, gan gynnwys cleifion allanol, cleifion mewnol ac achosion dydd. Mae yna rwydwaith hefyd o ysbytai cymunedol ar draws Cymru, sy'n darparu ystod gyfyngedig o wasanaethau. Mae gwasanaethau arbenigol gan gynnwys llawdriniaethau'r galon, triniaeth canser, gwasanaethau llosgiadau a chosmetig yn cael eu darparu mewn canolfannau arbenigol mewn ysbytai ar hyd a lled Cymru.

I gael gwybodaeth bellach am y gwasanaethau iechyd a gofal sy'n cael eu darparu gan ysbytai yng Nghymru, dylech gyfeirio at [Gyfeiriadur ysbytai GIG Cymru](#).

Ymddiriedolaethau GIG Cymru

Mae yna 4 Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae gan bob un ohonynt gylch gwaith cenedlaethol.

- Mae [Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru \(WAST\)](#) yn darparu gofal a thriniaeth brys mewn ysbytai ar draws Cymru gyfan, sydd ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'n gweithredu o naw deg o orsafoedd ambiwlans, 3 canolfan reoli, tair swyddfa ranbarthol a phedwar gweithdy cerbydau. WAST sydd hefyd yn cynnal [Galw Iechyd Cymru](#).
- Mae [Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre](#) yn darparu gwasanaethau canser a gwaed arbenigol ar draws De a Chanolbarth Cymru drwy [Ganolfan Ganser Felindre](#) a [Gwasanaeth Gwaed Cymru](#). Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn casglu rhoddion gwaed gwirfoddol, heb dâl, gan y cyhoedd ac mae Canolfan Ganser Felindre yn darparu gwasanaethau canser arbenigol i fwy na 1.5 miliwn o bobl yn Ne-ddwyrain Cymru a thu hwnt. Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre hefyd yn cynnal [Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru](#) a'r [Bartneriaeth Cydwasanaethau](#).
- Mae [Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) yn darparu cyngor a gwasanaethau iechyd y cyhoedd annibynnol a phroffesiynol i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant poblogaeth Cymru.
- Cafodd [Addysg a Gwella Iechyd Cymru \(AaGIC\)](#) ei sefydlu ym mis Hydref 2018, gan uno Deoniaeth Cymru; Gwasanaethau Addysg a Datblygu Gweithlu GIG Cymru (WEDS) a Chanolfan Addysg Broffesiynol Fferylliaeth

Cymru (WCPPE). Mae gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig rôl arweiniol mewn addysgu, hyfforddi, datblygu a llunio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru, gan gefnogi gofal o safon uchel i bobl Cymru.

Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Sefydlwyd [Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru \(PGIAC\)](#) er mwyn sicrhau bod gan boblogaeth Cymru fynediad teg a chyfartal i'r ystod lawn o wasanaethau arbenigol a thrydyddol. Wedi'u cynnal gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, mae PGIAC yn gyfrifol am gydgyllunio'r gwasanaethau hyn ar ran y saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.

Awdurdodau Lleol

Awdurdodau lleol (cynghorau) sy'n darparu'r arweinyddiaeth a'r gwasanaethau lleol sydd eu hangen ar eu cymunedau. Mae'r ystod o wasanaethau yn eang ac maent yn cynnwys darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, yn ogystal â gwasanaethau y gwyddom eu bod yn cael effaith ar iechyd a'i benderfynyddion ehangach yn y tymor hwy e.e. addysg, yr amgylchedd, datblygiad economaidd a thai. Maent yn darparu amrediad o wasanaethau, naill ai'n uniongyrchol, drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a/neu drwy gomisiynu eraill i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan.

Mae cynghorau yn gweithio hefyd gyda phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus megis:

- Awdurdodau Tân ac Achub
- Comisiynwyr Heddlu a Throsedd
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae gwybodaeth bellach am wasanaethau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol ar gael [yma](#).

Y Trydydd Sector

Mae'r Trydydd Sector yn gwneud cyfraniad aruthrol at iechyd a llesiant pobl sy'n byw yng Nghymru, ac mae'n cael ei ddisgrifio fel cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, mentrau cydweithredol a chwmnïau cydfuddiannol.

Yn arddangos amrediad o wahanol fathau o sefydliadau, gan gynnwys elusennau cofrestredig ac anghofrestredig, cwmnïau cyfyngedig drwy warant (a all fod yn elusennau cofrestredig hefyd), Cwmnïau Budd Cymunedol, Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus a chymdeithasau anghorfforedig, mae gan bob sefydliad ei nodau, diwylliant a'i werthoedd ei hun a'i ffordd ei hun o wneud pethau.

Mae sefydliadau'r Trydydd Sector yn rhannu rhai nodweddion cyffredin pwysig, gan gynnwys: bod yn annibynnol, cyrff anllwywodraethol sydd wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan ddinasyddion sy'n dewis trefnu ac sydd wedi'u cymell gan y dyhead i ddatblygu amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol ymhellach, yn hytrach na gwneud elw.

Galw Iechyd Cymru

Mae Galw Iechyd Cymru yn wasanaeth iechyd a gwybodaeth i gleifion, sydd ar gael 24 awr y dydd, bob dydd. Gall trigolion ardaloedd Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin neu Ystradgynlais gael mynediad at Galw Iechyd drwy 111.



Mae Galw Iechyd Cymru yn darparu pedwar gwasanaeth penodol:

- Gwasanaeth ffôn 24 awr, 7 niwrnod yr wythnos, sy'n darparu cyngor i unrhyw un nad yw'n teimlo'n dda neu nad ydynt yn siŵr beth i'w wneud. Mae'n darparu gwybodaeth iechyd am ystod eang o gyflyrau, triniaethau a gwasanaethau iechyd lleol. Yn ddibynnol ar y rheswm dros alw, rhoddir cyngor gan Gynghorydd Nyrsio, Cynghorydd Gwybodaeth Iechyd neu Gynghorydd Iechyd Deintyddol. Codir tâl am alwadau.
- [gwasanaeth ymholiadau ar-lein](#)
- [Gwyddoniadur](#) ar y we
- cyfleuster chwilio ar y we ar gyfer lleoli gwasanaethau lleol y GIG, gan gynnwys [deintyddion](#), [fferyllfeydd](#) neu [grwpiau cymorth](#)

Gwasanaethau gwybodaeth iechyd a llesiant ar-lein

- Mae DEWIS CYMRU yn gyfeiriadur ar-lein o'r gwasanaethau llesiant sydd ar gael yng Nghymru. Mae'n darparu gwybodaeth a chynghor am lesiant ac mae'n cyfeirio defnyddwyr at wasanaethau sy'n gallu helpu a chefnogi. Mae Dewis yn darparu gwybodaeth am nifer o feysydd, gan gynnwys lle maent yn byw, teimlo'n ddiogel, mynd allan a chadw mewn cysylltiad ac mae'n cysylltu pobl a gwasanaethau lleol sy'n gallu darparu help a chymorth.
- INFOENGINE yw cyfeiriadur gwasanaethau'r trydydd sector yng Nghymru a chafodd ei sefydlu gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol a Chynghor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, mewn partneriaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am y cyfeiriadur ar-lein o wasanaethau sydd ar gael yng Nghymru ar gael yn:

- [Galw Iechyd Cymru](#)
- [Infoengine](#)
- [Dewis Cymru](#) ([lawrlwytho'r ap](#))

Cynghorau Iechyd Cymuned

Cyrff annibynnol yw Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynrychioli ac yn gweithredu ar ran y cyhoedd a chleifion yng Nghymru. Mae yna wyth CIC yng Nghymru, ac maent yn darparu nifer o swyddogaethau, sef:

- Gwranddo ar yr hyn sydd gan unigolion a'r gymuned i'w ddweud am y gwasanaethau iechyd o ran ansawdd, nifer, mynediad at a phriodoldeb y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Maent yn gweithredu fel llais y cyhoedd, yn rhoi gwybod i reolwyr gwasanaethau iechyd yng Nghymru beth sydd ei angen ar bobl a sut y gellir gwella pethau.
- Ymgynghori gyda'r cyhoedd yn uniongyrchol ar faterion i wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu barn y cyhoedd yn gywir i'r bwrdd iechyd, Ymddiriedolaeth iechyd neu Lywodraeth Cymru.
- Monitro gwasanaethau gofal sylfaenol. Ymweld yn rheolaidd â safleoedd meddygon teulu, fferyllwyr ac optegwyr, yn ogystal ag ysbytai preifat a chartrefi gofal.
- Helpu, cynghori a chefnogi pobl, am ddim, sy'n dymuno cael mynediad at eu cofnodion meddygol neu i wneud cwynion am wasanaethau'r GIG a materion tebyg.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

- [Cynghorau Iechyd Cymuned, Galw Iechyd Cymru](#)
- [Taflen](#) Cynghorau Iechyd Cymuned



Adnoddau i'ch helpu i
ddatblygu eich clwstwr

Rhan o gyfres o 3 llawyr ar gyfer Arweinyr
Clystyrau newydd a staff eraill sy'n gweithio mewn
neu ovdâ chlystyrau



Amdanoch chi fel arweinydd

Rhan o gyfres o 3 llawlyfr ar gyfer Arweinwyr
Clystrau Newydd a staff eraill sy'n gweithio mewn